

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd) Clinig Harddwch Claire Price, Y Fenni

Dyddiad arolygu: 30 Mehefin 2025

Dyddiad cyhoeddi: 30 Medi 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.	Y camau nesaf	18
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	19
	Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith	20
	Atodiad C - Cynllun gwella	24

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd yng Nghlinig Harddwch Claire Price ar 30 Mehefin 2025.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan ddau arolygydd gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 15 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, darparodd y cleifion adborth cadarnhaol ar y clinig yn yr holiadur gan ddweud ei fod yn 'dda' neu'n 'dda iawn'. Roedd y clinig yn hybu ffyrdd iach o fyw mewn ymgynghoriadau ac yn cynnal amgylchedd glân a phreifat. Roedd y gweithdrefnau cydsynio yn gadarn gyda ffurflenni wedi'u llofnodi yn ystod pob ymweliad. Gwnaethom nodi bod angen gwelliannau o ran trefniadau hebryngwyr ac nid oedd gwybodaeth ar gael mewn fformatau gwahanol i gleifion. Bydd angen diweddarau'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben i gynnwys gwybodaeth allweddol. Gwelsom dystiolaeth o nodiadau manwl ar gleifion ac roedd yr adborth gan gleifion yn cael ei adolygu a'i rannu'n rheolaidd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen diweddarau'r datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion
- Nid oedd gwasanaethau cyfieithu ar gael
- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn fformatau amgen.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cleifion yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth
- Gweithdrefn gydsynio gadarn
- Roedd yn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y clinig yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd mesurau rheoli heintiau priodol ar waith ac roedd y cofnodion yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd cyfarpar diogelwch tân ar waith ond nid oedd profion larwm tân nac asesiadau risg tân yn cael eu cynnal. Nodwyd nad oedd asesiad risg iechyd a diogelwch ar waith. Gwelsom fod dyddiad y profion dyfeisiau cludadwy wedi darfod ond aed i'r afael â hyn yn brydlon. Gwelsom fod polisïau diogelu priodol ar waith. Roedd y protocolau diogelwch peiriannau laser yn cael eu dilyn, ond nid oedd contract cyfredol ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau ac mae angen adolygu'r rheolau lleol. Gwelsom nad oedd digon o dystiolaeth ddogfennol o wiriadau gwella ansawdd. Roedd y gwaith cadw cofnodion yn glir a thrwyadl ond yn cael ei ddyblygu mewn sawl dogfen.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Dylid cynnal asesiad risg tân
- Dylid cynnal asesiad risg iechyd a diogelwch
- Bydd y contract â'r Cynghorydd Diogelu rhag Laserau yn cael ei roi ar waith
- Bydd y rheolau lleol yn cael eu diweddarau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid dogfennu gwiriadau diogelwch tân
- Rhaid rhoi gwiriadau gwella ansawdd ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y clinig i'w weld yn lân ac yn daclus

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Y rheolwr cofrestredig oedd yn rhedeg y clinig gyda thîm bach. Gwelsom fod dogfennau yswiriant allweddol yn cael eu harddangos ond nid oedd tystysgrifau rheolwr cofrestredig AGIC ar gael. Roedd polisiâu addas ar gael mewn ffolder ymroddedig ond nid oedd polisi iechyd a diogelwch ar gael. Gwelsom fod cwynion yn cael eu rheoli'n briodol a'u rhannu gyda staff mewn cyfarfodydd. Roedd proses recriwtio briodol ar waith, ond ni welwyd prawf adnabod. Roedd y cofnodion hyfforddiant yn dangos bylchau sylweddol mewn hyfforddiant gorfodol ac mae angen matrices hyfforddiant i sicrhau cydymffurfiaeth.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Nid oedd cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gael i'r staff.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen tystiolaeth ddogfennol i sicrhau bod y staff wedi darllen a deall y polisiâu
- Rhoi'r matrices hyfforddiant ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd polisi cwynion clir ar waith
- Roedd gwiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ar gyfer staff

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y lleoliad i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir yn y clinig. Cawsom gyfanswm o 15 o holiaduron wedi'u cwblhau. Ni wnaeth rhai cleifion ateb pob cwestiwn, a nododd y rhan fwyaf ohonynt eu bod wedi ymweld o fewn y ddeufis diwethaf. Dywedodd pob un o'r unigolion a ymatebodd i holiadur AGIC fod y gwasanaeth naill ai'n dda neu'n dda iawn.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Salon braf iawn. Staff Gwych"

"Proffesiynol iawn."

Diogelu a gwella iechyd

Dywedwyd wrthym fod y lleoliad yn hybu ffyrdd iach o fyw mewn sgysiau yn ystod y broses o drin cleifion. Dywedwyd wrthym fod y pynciau oedd yn cael eu trafod yn cynnwys ymarfer corff, deiet a ffordd o fyw. Roedd gwybodaeth am y gwasanaethau eraill a gynigir ar gael ar y wefan ac roedd taflenni ar gael yn ardal y dderbynfa.

Urddas a pharch

Gwelsom fod y cleifion a oedd yn mynychu Clinig Harddwch Claire Price yn cael eu trin â charedigrwydd a pharch. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod yr aelodau o staff yn gyfeillgar ac yn groesawgar.

Gwelsom un ystafell drin ar gyfer triniaethau laser, a oedd wedi'i lleoli ar y llawr cyntaf. Gwelsom fod ardaloedd y cleifion yn lân, yn daclus ac yn drefnus iawn. Dywedwyd wrthym fod ymgynghoriadau'n cael eu cwblhau yn yr ystafell drin a bod y drysau'n cael eu cadw ar gau bob amser wrth roi triniaeth er mwyn sicrhau preifatrwydd y cleifion.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn trafod yr opsiwn o gael hebryngwr gyda'r cleifion ar lafar. Fodd bynnag, nid oedd arwyddion ar gael yn yr ystafell drin i hysbysu'r cleifion ynghylch yr opsiwn hwn. Gwelsom fod set o gyfarpar llygaid ychwanegol ar gael ar gyfer hebryngwr os oedd angen. Gwnaethom ofyn am gael gweld copi o bolisi hebryngwyr, ond cawsom wybod nad oedd un ar waith yn y lleoliad.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu polisi hebryngwyr addas.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Gwelsom bolisi cyfredol ar gyfer cael cydsyniad gan gleifion a oedd yn cael ei adolygu'n flynyddol. Dywedwyd wrthym fod y triniaethau yn cael eu hesbonio'n llawn i'r cleifion adeg yr ymgynghoriad a'u bod yn cael cydsyniad ym mhob apwyntiad, a hynny cyn y driniaeth. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn cael digon o wybodaeth i ddeall yr holl opsiynau trin, eu risg a'u manteision.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar ddetholiad o gofnodion pum claf. Gwelsom fod ffurflen gydsynio ar gael ar gyfer y pum claf. Roedd y rhain wedi'u llofnodi ym mhob apwyntiad a'u cadw yn ffeil y claf.

Gwelsom daflenni i gleifion yn rhoi manylion risgiau a manteision y driniaeth a dywedwyd wrthym eu bod yn cael eu rhoi i gleifion yn ystod ymgynghoriadau a'u bod ar gael yn y dderbynfa. Dywedwyd wrthym fod y cleifion hefyd yn cael gwybod am risgiau a manteision ar lafar a bod hanesion meddygol yn cael eu gwirio a'u diweddarau yn ystod pob ymweliad.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd y wybodaeth i gleifion ar gael mewn fformatau amgen yn y lleoliad. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth ar gael ar y wefan. Pe bai cleifion yn cael unrhyw broblemau o ran darllen gwybodaeth, byddai'r staff yn trafod hyn ar lafar gyda nhw.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth i gleifion ar gael mewn fformatau amgen yn y lleoliad.

Cyfathrebu'n effeithiol

Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwnaethom ofyn am gael gweld copi o'r datganiad o ddiben gan staff. Fodd bynnag, nid oedd hwn ar gael. Rhoddwyd copi o'r datganiad o ddiben ar ôl yr arolygiad. Gwnaethom edrych ar y ddogfen a gwelsom fod ynddi wybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir, preifatrwydd ac urddas a'r weithdrefn gwyno. Fodd bynnag, nid oedd digon o wybodaeth am y trefniadau a wnaed i geisio safbwyntiau'r cleifion nac am rif ffôn a chyfeiriad e-bost y rheolwr cofrestredig. Gwnaethom argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ychwanegu'r wybodaeth hon at y datganiad o ddiben.

Rhaid i'r datganiad o ddiben fod ar gael yn y clinig ar gais.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r datganiad o ddiben i gynnwys gwybodaeth am y trefniadau a wnaed i geisio safbwyntiau'r cleifion a manylion cyswllt y rheolwr cofrestredig.

Gwelsom dystiolaeth fod canllaw i gleifion ar gael gan y staff ac yn y dderbynfa. Gwelsom fod crynodeb o'r datganiad o ddiben ynddo, gwybodaeth am y triniaethau sydd ar gael gyda risgiau a manteision, gwybodaeth gyswllt ar gyfer y lleoliad ac roedd rhestr prisiau ar gael. Fodd bynnag, nid oedd digon o wybodaeth ynddo am y weithdrefn gwyno, crynodeb o safbwyntiau'r cleifion, gwybodaeth am ble i gael yr adroddiad arolygu diweddaraf, y rhif cyswllt ar gyfer Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a manylion y mynediad cyfyngedig i gleifion sy'n methu defnyddio'r grisiau am fod yr ystafell drin ar gyfer triniaethau laser ar y llawr cyntaf. Gwelsom fod ychwanegu crynodeb o safbwyntiau'r cleifion a materion hygyrchedd yr oedd angen eu hychwanegu at y canllaw i gleifion yn welliant ar yr arolygiad blaenorol. Gwnaethom argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn diweddarau'r canllaw i gleifion ac yn ei adolygu'n flynyddol.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r canllaw i gleifion a'i adolygu'n flynyddol.

Dywedwyd wrthym nad oedd gwasanaethau cyfieithu ar waith i gleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Byddai'r staff yn defnyddio adnoddau cyfieithu ar-lein pe bai angen. Gwnaethom argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn ceisio gwasanaethau cyfieithu pe bai claf na allai siarad Saesneg yn mynychu.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar gael i gleifion nad Saesneg yw eu mamiaith.

Dywedwyd wrthym fod unrhyw gleifion nad oedd ganddynt fynediad i ddyfeisiau digidol yn gallu ffonio'r clinig i drefnu apwyntiadau a'u bod yn cael cardiau apwyntiad ar bapur wrth fynychu.

Cynllunio a darparu gofal

Gwelsom dystiolaeth o nodiadau manwl ar gleifion a dywedwyd wrthym fod y cleifion yn mynd trwy ymgynghoriad wyneb yn wyneb llawn ac yn cael prawf croen cyn unrhyw driniaeth. Roedd hyn yn cynnwys y nifer o sesiynau oedd yn ofynnol, y canlyniadau disgwyledig a'r risgiau a manteision. Dywedodd yr holl gleifion a atebodd yr holiadur eu bod wedi cael prawf croen cyn cael triniaeth newydd. Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion wedi rhoi cydsyniad cyn pob triniaeth a dywedodd yr holl gleifion a wnaeth ymateb i'r holiadur eu bod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn y driniaeth.

Dywedwyd wrthym fod cynlluniau triniaeth yn cael eu rhoi i'r cleifion yn eu hymgynghoriad a bod unrhyw wybodaeth am ôl-ofal yn cael ei darparu mewn taflen ac ar lafar. Dywedodd pob un o'r cleifion a atebodd yr holiadur eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael iddynt, ynghyd â risgiau a manteision y driniaeth.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwelsom fod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth priodol ar waith a dywedwyd wrthym fod y lleoliad yn amgylchedd cynhwysol. Roedd ramp ar gael yn y lleoliad ar gais er mwyn mynd i mewn i'r safle. Dywedwyd wrthym fod hawliau cleifion trawsryweddol yn cael eu cynnal a bod rhagenwau a ffefrir yn cael eu defnyddio ar gais a'u newid ar gofnodion y cleifion.

Dywedodd pawb a atebodd holiadur AGIC nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth.

Ymgysylltu â dinasyddion a cheisio adborth

Dywedwyd wrthym y ceir adborth trwy arolygon e-bost a oedd yn cael eu hanfon at gleifion ar ôl eu triniaeth ac roedd arolygon papur ar gael yn y dderbynfa hefyd. Roedd y rheolwr yn adolygu adborth yn rheolaidd ac yn ei rannu â'r staff yn ystod cyfarfodydd tîm. Roedd adborth yn cael ei gyhoeddi ar wefan y lleoliad er mwyn i'r cleifion edrych arno, ond fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad, nid oedd crynodeb o'r adborth gan gleifion ar gael yn y canllaw i gleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Gwelsom fod y lleoliad yn lân yr olwg, yn daclus ac wedi'i addurno i safon dda. Gwelsom fod yr holl ardaloedd yn olau ac yn agored ac i'w weld yn fodern. Gwelsom fod system larwm diogelwch addas ar waith gyda chontract parhaus a system camera diogelwch gydag arwyddion yn rhoi gwybod i'r cleifion fod camerâu yn cael eu defnyddio.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom dystiolaeth fod gan y lleoliad dystysgrif diogelwch nwy cyfredol, a thystysgrif gosodiadau trydanol a oedd wedi'i chwblhau yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod y profion dyfeisiau cludadwy wedi darfod ym mis Mawrth 2025. Gwnaethom godi'r mater hwn â'r rheolwr cofrestredig a drefnodd i'r profion dyfeisiau cludadwy gael eu cwblhau cyn pen 24 awr o'r arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Gwnaethom edrych ar drefniadau diogelwch tân y clinig a gwelsom fod contract cynnal a chadw cyfarpar tân addas ar waith. Gwelsom dystiolaeth bod y diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf. Gwelsom fod arwyddion 'dim smygu' yn yr adeilad ac roedd arwyddbyst clir ar gyfer yr allanfeydd tân. Fodd bynnag, gwnaethom nodi meysydd i'w gwella. Nid oedd cofnodion ar waith o wiriadau wythnosol o'r larymau tân, darparwyd cofnodlyfr i gwblhau gwiriadau i AGIC yn syth ar ôl yr arolygiad. Nodwyd bod hyn yn welliant o gymharu â'n harolygiad blaenorol. Gwelsom hefyd nad oedd ymarfer tân wedi'i gynnal ers 10 mis, cafodd hyn ei gwblhau yr diwrnod canlynol ac anfonwyd tystiolaeth at AGIC. Gwnaethom ofyn am weld copi o'r asesiad risg tân; cafodd hwn ei ddarparu, ond yn 2019 y cafodd ei gwblhau ddiwethaf. Nid oedd adolygiad o'r ddogfen hon ar waith, ac felly ni chawsom sicrwydd bod diogelwch tân yn cael ei fonitro. Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Fel rhan o'r broses hon, gwnaethom ysgrifennu at y gwasanaeth ar unwaith yn dilyn yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau unioni ar fyrder. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gwiriadau wythnosol o'r larymau tân eu cofnodi gyda thystiolaeth ddogfennol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gwblhau ymarferion tân ddwywaith y flwyddyn gyda thystiolaeth ddogfennol.

Gwnaethom adolygu'r asesiad risg Goleuni Pwls Dwys a gwelsom ei fod yn addas gydag adolygiadau'n cael eu cynnal yn flynyddol. Fodd bynnag, ni welsom asesiad risg iechyd a diogelwch ar waith. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Gwnaethom edrych ar y pecyn cymorth cyntaf a gwelsom fod yr holl eitemau'n gyfredol. Roedd pedwar swyddog cymorth cyntaf penodedig yn y clinig gyda thystysgrifau cyfredol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y clinig yn lân ac yn daclus yr olwg. Roedd prosesau boddhaol ar waith i lanhau a dihalogi'r ardaloedd trin. Roedd y cyfarpar a'r dodrefn o ddeunydd hawdd ei lanhau ac roedd lefelau priodol o gyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff. Gwelsom dystiolaeth o amserlenni glanhau gyda manylion glanhau rhwng cleifion, yn ddyddiol ac yn wythnosol. Gwelsom fod polisi rheoli heintiau addas ar waith a oedd yn cael ei adolygu'n flynyddol. Gwelsom dystiolaeth bod contract ar waith ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff a bod polisi gwaredu gwastraff ar waith.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn a bod y lleoliad yn 'lân iawn'.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i drin cleifion 18 oed neu'n hŷn a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn cydymffurfio â'r hyn. Dywedwyd wrthym nad oedd plant yn cael dod i mewn i'r safle.

Gwelsom dystiolaeth o bolisi diogelu oedolion agored i niwed a pholisi chwythu'r chwiban a oedd yn cael ei adolygu'n flynyddol. Gwelsom fod gan y rheolwr cofrestredig ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar ei ffôn i sicrhau bod y polisiâu a'r gweithdrefnau yn cael eu diweddarau. Dywedwyd wrthym y byddai'r rheolwr cofrestredig yn cysylltu â'r tîm diogelu lleol pe bai unrhyw faterion diogelu yn cael eu nodi.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod y peiriant laser yn y lleoliad yr un fath â'r un a oedd wedi'i gofrestru ag AGIC a bod tystiolaeth iddo gael ei wasanaethu. Gwelsom fod protocolau meddygol ar waith a'u bod yn cael eu llofnodi gan yr ymarferydd meddygol. Ni welsom dystiolaeth o gontract cyfredol gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau. Lluniwyd yr adroddiad diwethaf a welwyd ar 11 Ionawr 2024 a oedd yn cynnwys rheolau lleol, asesiadau risg ac adroddiad addas ond roedd angen diweddarau hyn gan fod angen iddo gael ei adolygu gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau yn flynyddol. Oherwydd bod dyddiad y dogfennau hyn wedi darfod, ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Fel rhan

o'r broses hon, gwnaethom ysgrifennu at y gwasanaeth ar unwaith yn dilyn yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau unioni ar fyrder. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Gwelsom nad oedd y rheolau lleol oedd ar gael yn rhoi manylion y gweithredwyr yn y ddogfen. Rydym yn argymhell diweddarau'r rhain i sicrhau bod enwau'r gweithredwyr yn cael eu cynnwys.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod manylion y gweithredwyr wedi'u cynnwys yn y rheolau lleol.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yr ystafell ddynodedig ar gyfer triniaethau laser yn cael ei chloi pan nad oedd yn cael ei defnyddio, ac roedd yr allwedd yn cael ei storio'n ddiogel. Roedd arwydd ar gael i'w roi ar y drws i roi gwybod i eraill pan oedd y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio gyda chlo bysellbad ar wahân i sicrhau nad oedd unrhyw un heb awdurdod yn mynd i mewn.

Roedd sbectolau amddiffynnol ar gael yn hawdd, roeddent mewn cyflwr da ac yn gyson â'r rheolau lleol oedd ar gael. Dywedwyd wrthym fod y sbectolau yn cael eu gwirio cyn eu defnyddio, ond nid oedd cofnod o hyn. Gwnaethom argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn rhoi cofnodlyfr ar waith i wirio'r sbectolau cyn pob defnydd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi cofnodlyfr ar waith i wirio'r sbectolau laser cyn pob triniaeth.

Roedd yr holl staff a oedd yn gweithredu'r peiriant laser wedi cwblhau hyfforddiant ar gyfer y peiriant penodol gyda chwrs gloywi wedi'i drefnu yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Gwelsom dystiolaeth yng nghofnodion y cleifion fod gwiriadau cyn triniaeth yn cael eu cynnal fel prawf croen 48 awr cyn y driniaeth.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwnaethom ofyn am weld tystiolaeth o weithgareddau gwella ansawdd a gynhaliwyd gan y clinig. Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau'r archwiliadau o gofnodion cleifion; fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth ddogfennol o hyn. Er ein bod wedi gweld tystiolaeth o adborth gan gleifion, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod archwiliadau clinigol wedi cael eu cynnal o'r trefniadau atal tân, iechyd a diogelwch, neu brosesau atal a rheoli heintiau. Gwnaethom argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn rhoi'r gweithgareddau gwella ansawdd ar waith gan y byddai hyn yn helpu'r clinig i gydymffurfio â'r rheoliadau

sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo asesu a monitro'r gwasanaeth er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd y safonau angenrheidiol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi gweithdrefn ar waith i sicrhau bod prosesau gwerthuso a gwella parhaus ar waith lle bo angen, fel y nodir yn y rheoliadau.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod cofnodion y cleifion wedi'u dogfennu ar bapur gyda'r apwyntiadau yn cael eu cadw'n ddigidol. Roedd yr holl gofnodion papur yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cwpwrdd dan glo ac roedd apwyntiadau digidol yn cael eu cadw ar system ddiogel. Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig broses briodol ar gyfer gwaredu cofnodion, gan gynnwys cyfnodau cadw data.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf a gwelsom dystiolaeth o waith cadw cofnodion a chynnal a chadw da. Roedd y cofnodion yn fanwl, yn glir ac yn ddarllenadwy. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth yn cael ei chofnodi ar sawl dogfen ar wahân, gan achosi dyblygu diangen. Roedd yr holl gofnodion a welwyd wedi'u teilwra at yr unigolyn ac yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, hanes meddygol, y rhannau o'r corff a gafodd eu trin, paramedrau perthnasol a chyfrif dosau.

Gwelsom driniaeth a oedd wedi'i chofrestru ar gyfer uned laser SkinBase. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth fel enw'r claf, math o driniaeth, cyfrif dosau a llythrennau enw'r gweithredwr. Cofnodwyd gwybodaeth am baramedrau eraill a chydysniad ar ddogfen ar wahân yn ffeil y claf. Ni welsom unrhyw wybodaeth am adweithiau niweidiol neu ddynodydd ail glaf. Gwnaethom argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn cynnwys yr holl wybodaeth a grybwyllwyd yn y gofrestr triniaethau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddararu'r gofrestr triniaethau er mwyn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig sy'n rhedeg ac yn berchen ar Glinig Harddwch Claire Price gyda thîm bach o staff.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom dystiolaeth o yswiriant cyflogwr ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y clinig. Gwelsom fod y rhestr sy'n cynnwys yr amodau cofrestru ag AGIC wedi'i harddangos ond ni welsom unrhyw un o dystysgrifau AGIC. Dywedwyd wrthym fod y rhain wedi mynd ar goll a bod y rheolwr cofrestredig wedi gofyn am i dystysgrifau newydd gael eu hanfon yn eu lle.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig arddangos tystysgrifau cofrestru AGIC.

Gwelsom ystod o bolisiâu a gweithdrefnau addas mewn ffolder ymroddedig. Fodd bynnag, ni welsom bolisi iechyd a diogelwch na pholisi rheoli gwaith cynnal a chadw ac nid oedd tystiolaeth bod y staff yn llofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y dogfennau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi polisi iechyd a diogelwch a pholisi rheoli gwaith cynnal a chadw ar waith.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi proses ar waith i ddangos bod y staff wedi darllen a deall polisiâu gyda thystiolaeth ddogfennol i ddangos hyn.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd polisi a gweithdrefn addas ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion. Roedd y rhain yn cynnwys manylion yr unigolyn cyfrifol a'r amserlenni ar gyfer rhoi cydnabyddiaeth. Roedd y manylion cyswllt ar gyfer AGIC hefyd ar gael pe bai claf yn teimlo na ellid dod o hyd i ddatrysiad. Roedd gwybodaeth am gŵynion a ddaeth i law ar gael mewn ffolder ac roeddent yn cael eu monitro am themâu cyffredin. Dywedwyd bod cwynion a'u gwersi yn cael eu rhannu â'r tîm mewn cyfarfodydd staff.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom fod polisi recriwtio priodol ar waith a oedd yn cael ei adolygu'n flynyddol. Cawsom wybod bod pedwar gweithredwr cyfredol ar gyfer y peiriannau laser yn y clinig ar hyn o bryd, a bod un ohonynt ar absenoldeb mamolaeth ar hyn o bryd. Rhoddodd y rheolwr cofrestredig wybod i ni fod yn rhaid i'r holl staff gael cymhwyster harddwch lefel tri o leiaf i weithio yn y clinig. Gwelsom dystiolaeth o wiriadau'r gwasanaeth datgelu a gwahardd (DBS) ar gyfer yr holl staff ac roedd tystysgrifau manylach ar gael i bob gweithredwr Goleuni Pwls Dwys. Dangoswyd

llawlyfr i gyflogeion i ni a oedd yn cael ei anfon at bob aelod o staff drwy e-bost wrth ddechrau ei gyflogaeth. Gwnaethom edrych ar gofnodion dau aelod o staff a gwelsom fod gwiriadau addas ar waith, ond nid oedd prawf adnabod ar gael iddynt.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod prawf adnabod aelodau o'r staff yn rhan o'r broses recriwtio a'i fod yn cael ei storio yn ffeiliau'r staff.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwnaethom ofyn am weld cofnodion hyfforddiant ar gyfer gweithredwr Goleuni Pwls Dwys (IPL). Gwelsom y canlynol:

- Roedd 2/5 o weithredwyr IPL wedi cael hyfforddiant atal a rheoli heintiau
- Dim hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Dim hyfforddiant iechyd a diogelwch yn y gwaith
- Dim hyfforddiant diogelu data/llywodraethu gwybodaeth
- Dim tystiolaeth o hyfforddiant diogelwch tân
- Dim diogelu oedolion sy'n wynebu risg
- Cwblhawyd hyfforddiant craidd gwybodaeth ddiwethaf ym mis Mai 2020

Gwnaethom nodi bod hyfforddiant craidd gwybodaeth wedi'i godi fel gwelliant ar ein harolygiad blaenorol. Oherwydd y croniad mewn hyfforddiant heb ei gwblhau a'r risg i ddiogelwch cleifion, ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Gwelsom nad oedd matrices hyfforddiant ar waith i fonitro hyfforddiant y staff yn effeithiol. Gwnaethom argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn rhoi matrices hyfforddiant ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â'r hyfforddiant gorfodol wrth symud ymlaen.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi matrices hyfforddiant ar waith i aelodau staff ei adolygu'n rheolaidd.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Gwnaethom nodi bod y profion dyfeisiau cludadwy wedi darfod ym mis Mawrth 2025.	Roedd risg o dân a risg drydanol i'r staff a'r cleifion os na fyddai dyfais fach yn addas at y diben.	Codwyd hyn â'r rheolwr cofrestredig	Trefnwyd profion dyfeisiau cludadwy y diwrnod hwnnw a chawsant eu cynnal ymhen 24 awr o'r arolygiad. Darparwyd tystysgrif yn syth ar ôl y profion.

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Clinig Harddwch Claire Price

Dyddiad yr arolygiad: 30 Mehefin 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Cofnodion hyfforddiant cyfyngedig a ddarparwyd adeg yr arolygiad. Nodwyd y canlynol: •Roedd 2/5 o weithredwyr IPL wedi cael hyfforddiant atal a rheoli heintiau •Dim hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth •Dim hyfforddiant iechyd a diogelwch yn y gwaith	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol yn y meysydd canlynol: • Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol • Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith • Diogelu Data/Llywodraethu Gwybodaeth • Diogelu Oedolion sy'n wynebu Risg • Atal a rheoli heintiau • Craidd Gwybodaeth.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 20(2)(a)	Mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant mewn Amrywiaeth a Chydraddoldeb, Diogelu, Hyfforddiant Tân a Rheoli Heintiau 1/7/2025. Mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant tân gan Datso 3/6/2025 iechyd a diogelwch ar waith Hyfforddiant Diogelu Data ar waith	Claire Price	Wedi'i gwblhau 9/7/2025 Wedi'i gwblhau 9/7/2025 Wedi'i gwblhau 9/7/2025 Wedi'i gwblhau 9/7/2025 Yn mynd rhagddo Yn mynd rhagddo - Awst 2025

	•Dim hyfforddiant diogelu data/llywodraethu gwybodaeth •Dim tystiolaeth o hyfforddiant diogelwch tân •Dim diogelu oedolion sy'n wynebu risg •Cwblhawyd hyfforddiant craidd gwybodaeth ddiwethaf ym mis Mai 2020			1/7/2025 1/7/2025 Lefel 2 ar gyfer Hyfforddiant Rheoli Heintiau - wedi'i drefnu - hyfforddiant Craidd Gwybodaeth wedi'i Drefnu - Mike Ragan 24/7/2025		Wedi'i gwblhau 9/7/2025 Wedi'i gwblhau 9/7/2025 Wedi'i gwblhau 9/7/2025 Yn mynd rhagddo Yn mynd rhagddo ar gyfer 24/7/2025
2.	Ni ddarparwyd asesiad risg iechyd a diogelwch ar ddiwrnod yr arolygiad.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff asesiad risg iechyd a diogelwch ei gwblhau gan unigolyn cymwys a'i gadw'n gyfredol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 19(1)(b)	Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch ar waith 6/7/2025	Claire Price	Wedi'i gwblhau 6/7/2025
3.	Cwblhawyd yr asesiad risg tân ddiwethaf yn 2019, ond nid oedd hwn wedi'i adolygu.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff asesiad risg tân ei gwblhau gan unigolyn cymwys a'i gadw'n gyfredol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 26(4)(f)	Asesiad Risg Tân wedi'i drefnu gyda Blackwood Fire 4/8/2025 Mae Asesiad Risg IPL eisoes ar waith - diweddarwyd ym mis Gorffennaf 2025	Claire Price	Yn mynd rhagddo - 4/8/2025 Bydd Blackwood Fire yn mynychu ar

				Mae Blackwood Fire wedi anfon e-bost at Glinig Harddwch Claire Price i nodi ei fod yn ystyried ein bod ni'n cyflwyno risg isel. Mae e-bost ar gael i gadarnhau hyn.		y dyddiad hwn.
4.	Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth o gyswllt cyfredol â Chynghorydd Diogelu rhag Laserau.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu tystiolaeth fod contract cyfredol ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau cyn darparu unrhyw driniaethau pellach i gleifion.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 19(2)(a)	Contract Cynghorydd Diogelu rhag Laserau yn mynd rhagddo Mike Ragan 9/6/2022-8/6/2027 Contract newydd wedi'i gyhoeddi 1/7/2025	Claire Price	Wedi'i gwblhau - 1/7/2025
5.	Cafodd y rheolau lleol a ddarparwyd eu rhoi ar waith ym mis Ionawr 2024 sy'n golygu bod eu dyddiad wedi mynd heibio a bod angen i Gynghorydd Diogelu rhag Laserau eu hadolygu.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu tystiolaeth bod fersiwn gyfredol o'r rheolau lleol wedi'u paratoi gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau cyn darparu mwy o driniaethau i'r cleifion.	Deddf Safonau Gofal 2000 Rheoliad 24	Cynghorydd Diogelu rhag Laserau - Bydd Mike Ragan yn diweddarau ein Rheolau Lleol ar ôl iddo ymweld â'r safle ar 28/7/2025	Claire Price	Yn mynd rhagddo - 28/7/2025

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Claire Price

Swydd: Rheolwr IPL

Dyddiad: 9/7/2025

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Clinig Harddwch Claire Price

Dyddiad yr arolygiad: 30 Mehefin 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Gwnaethom ofyn am gael gweld copi o bolisi hebryngwyr, ond cawsom wybod nad oedd un ar waith yn y lleoliad.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu polisi hebryngwyr addas.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) Rheoliad 9(1)	Gorffennaf 2025	Claire Price	Wedi'i gwblhau
2.	Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd y wybodaeth i gleifion ar gael mewn fformatau amgen yn y lleoliad.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth i gleifion ar gael mewn fformatau amgen yn y lleoliad.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) Rheoliad 15(1)(a)	Yn mynd rhagddo Gorffennaf	Claire Price	Medi 2025
3.	Gwnaethom ofyn am weld copi o'r datganiad o ddiben gan y staff. Fodd	Rhaid i'r datganiad o ddiben fod ar gael yn y clinig ar gais.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) Rheoliad 6(2)	Diwygiwyd ym mis Awst 2025 - ar gael yn y dderbynfa	Claire Price	Wedi'i gwblhau

	bynnag, nid oedd hwn ar gael.					
4.	Nid oedd gwybodaeth yn y datganiad o ddiben am y trefniadau a wnaed i geisio safbwyntiau'r cleifion na rhif ffôn a chyfeiriad e-bost y rheolwr cofrestredig.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r datganiad o ddiben i gynnwys gwybodaeth am y trefniadau a wnaed i geisio safbwyntiau'r cleifion a manylion cyswllt y rheolwr cofrestredig.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) Rheoliad 6(1)	Diweddarwyd mis Awst 2025	Claire Price	Wedi'i gwblhau
5.	Nid oedd gwybodaeth yn y canllaw i gleifion am y weithdrefn gwyno, crynodeb o safbwyntiau'r cleifion, gwybodaeth am ble i ddod o hyd i'r adroddiad arolygu diweddaraf, y rhif cyswllt ar gyfer Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a manylion y mynediad cyfyngedig i gleifion sy'n methu defnyddio'r grisiau am fod yr ystafell drin ar gyfer	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r canllaw i gleifion a'i adolygu'n flynyddol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) Rheoliad 7(1)	Diweddarwyd mis Awst 2025	Claire Price	Wedi'i gwblhau

	triniaethau laser ar y llawr cyntaf.					
6.	Dywedwyd wrthym nad oedd gwasanaethau cyfieithu ar waith i gleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar gael i gleifion nad Saesneg yw eu mamiaith.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) Rheoliad 15(1)(a)	Diweddarwyd ym mis Gorffennaf 2025	Claire Price	Wedi'i gwblhau
7.	Nid oedd cofnodion ar waith o wiriadau wythnosol o'r larymau tân.	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gwiriadau wythnosol o'r larymau tân eu cofnodi gyda thystiolaeth ddogfennol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) Rheoliad 26(4)	Cânt eu cynnal yn wythnosol erbyn hyn	Claire Price	Wedi'i gwblhau
8.	Nid oedd ymarfer tân wedi'i gynnal ers 10 mis.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gwblhau ymarferion tân ddwywaith y flwyddyn gyda thystiolaeth ddogfennol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) Rheoliad 26(4)	Cynhaliwyd yr ymarfer tân ar 1 Gorffennaf 2025	Claire Price	Wedi'i gwblhau
9.	Gwelsom nad oedd y rheolau lleol oedd ar gael yn nodi manylion y gweithredwyr yn y ddogfen.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod manylion y gweithredwyr wedi'u cynnwys yn y rheolau lleol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) Rheoliad 45(3)	Diweddarwyd mis Awst 2025	Claire Price	Wedi'i gwblhau
10.	Dywedwyd wrthym bod y sbectolau yn cael eu gwirio cyn eu	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi cofnodlyfr	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol	Diweddarwyd yn y cofnodlyfr dyddiol	Claire Price	Wedi'i gwblhau

	defnyddio, ond nid oedd cofnod o hyn.	ar waith i wirio'r sbectolau laser cyn pob triniaeth.	(Cymru) Rheoliad 45(3)			
11.	Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod archwiliadau clinigol wedi cael eu cynnal o'r trefniadau atal tân, iechyd a diogelwch neu brosesau atal a rheoli heintiau.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi gweithdrefn ar waith i sicrhau bod prosesau gwerthuso a gwella parhaus ar waith lle bo angen, fel y nodir yn y rheoliadau.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) Rheoliad 19(1)(a)	Diweddarwyd ym mis Gorffennaf 2025	Claire Price	Wedi'i gwblhau
12.	Ni welsom unrhyw wybodaeth am adweithiau niweidiol neu ddynodydd ail glaf.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r gofrestr triniaethau er mwyn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) Rheoliad 45 (2)	Wedi'i ddiweddarau	Claire Price	Wedi'i gwblhau
13.	Ni welsom dystysgrifau AGIC y rheolwr cofrestredig yn cael eu harddangos.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig arddangos tystysgrifau cofrestru AGIC.	Deddf Safonau Gofal 2000 Rheoliad 28	Copi newydd bellach wedi'i dderbyn gan AGIC Gorffennaf 2025	Claire Price	Wedi'i gwblhau
14.	Ni welsom bolisi iechyd a diogelwch na pholisi rheoli gwaith cynnal a chadw.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi polisi iechyd a diogelwch a pholisi rheoli gwaith cynnal a chadw ar waith.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) Rheoliad 9(1)	Rhodddwyd ar waith ym mis Gorffennaf 2025	Claire Price	Wedi'i gwblhau

15.	Nid oedd tystiolaeth bod y staff yn llofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y dogfennau.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi proses ar waith i ddangos bod y staff wedi darllen a deall polisiau gyda thystiolaeth ddogfennol i ddangos hyn.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) Rheoliad 9	Roedd y wybodaeth wedi'i thynnu allan o'r ffeil ac ar goll ar ddiwrnod yr arolygiad	Claire Price	Wedi'i gwblhau
16.	Nid oedd prawf adnabod ar gael yng nghofnodion y staff.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod prawf adnabod aelodau o'r staff yn rhan o'r broses recriwtio a'i fod yn cael ei storio yn ffeiliau'r staff.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) Rheoliad 21(2)	Diweddarwyd mis Awst 2025	Claire Price	Wedi'i gwblhau
17.	Gwelsom nad oedd matrices hyfforddiant ar waith i fonitro hyfforddiant y staff yn effeithiol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi matrices hyfforddiant ar waith i aelodau staff ei adolygu'n rheolaidd.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) Rheoliad 20(2)	Collwyd hwn ar ddiwrnod yr arolygiad.	Claire Price	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Claire Price

Swydd: Rheolwr IPL

Dyddiad: 13/08/2025

